# Y Wifren Wib



Edrychwch ar y wifren wib.



Mae'r wifren wib yn hir - yn hir iawn. Mae hi'n uchel - yn uchel iawn.

Mae'r wifren wib ger Bethesda, yng Ngogledd Cymru, ym Mharc Cenedlaethol Eryri.

Heddiw, mae pobl yn dod i Eryri i gerdded, i feicio ac i fwynhau'r wlad hardd. Mae rhai pobl yn dod i wibio ar y wifren wib hefyd ac maen nhw'n gwibio dros hen chwareli.
Edrychwch: ydych chi'n gallu gweld y chwareli - o dan y wifren wib?

Amser maith yn ôl, roedd y chwareli yma'n cynhyrchu llechi.

Beth ydy llechi?



llechi ar y to



llechi yn yr ardd



llechi yn y tŷ

| | | | |
|---|---|---|---|
| hir | long | gwibio | to dart, zip |
| uchel | high | hen | old |
| ger | near | chwareli | quarries |
| parc cenedlaethol | national park | cynhyrchu | to produce |
| gwlad hardd | beautiful country | llechi | slates |